
# EIN BANERI



## Y DDRAIG GOCH

Er bod y ddraig wedi bod yn arwyddlun i Gymru ers canrifoedd, dim ond yn 1959 y daeth y ddraig goch yn faner swyddogol y genedl.

Yn y llyfr a ysgrifennodd yn y nawfed ganrif, disgrifa Nennius y frwydr rhwng draig goch y Brythoniaid a draig wen y Sacsoniaid yn Ninas Emrys, ger Beddgelert: y ddraig goch sydd yn ennill.

Cyfeiriodd Sieffre o Fynwy hefyd at yr hanes yn y ddeuddegfed ganrif. Yn hwyrach, mae sôn am y dreigiau yma yn chwedl 'Cyfranc Lludd a Llefelys' yn y Mabinogi.

Yn ystod teyrnasiad Harri VIII roedd y ddraig goch ar gefndir gwyn a gwyrdd yn aml i'w gweld ar longau'r Llynges Frenhinol. Newidiodd hyn o dan arweiniad James 1 pan roddwyd llun uncorn ar faneri yn lle'r ddraig.



*Colin Smith/Comin Wikimedia*

*'Y Ddraig Goch Ddyry Gychwyn' ar arfbais Dinas Caerdydd*


Dychwelodd y ddraig i'w lle ar arfbais brenhinol Cymru yn 1807, ac yn 1953 ychwanegwyd 'Y Ddraig Goch Ddyry Cychwyn' fel arwyddair i'r faner.

Yna, ar Chwefror 22 1959, datganwyd mai'r ddraig goch ar gefndir gwyn a gwyrdd oedd baner genedlaethol Cymru. Fodd bynnag, ni chafodd yr arwyddair ei ychwanegu at y faner swyddogol.

O holl wledydd y byd, dim ond Cymru a Bhutan sydd â llun draig yn ganolbwynt eu baneri. Gwlad fechan ynghanol mynyddoedd yr Himalaya yw Bhutan ac ar ei baner mae draig wen ar gefndir melyn a choch.

Cafwyd gwrthwynebiad i faner y ddraig goch yn 2007 pan ddywedodd y Parchedig George Hargreaves, arweinydd y Blaid Gristnogol Gymreig, ei fod yn gweld y ddraig fel arwydd o'r diafol. Dywedodd y dylai'r symbol Satanaidd yma gael ei ddisodli â baner Dewi Sant, sef croes felen ar gefndir du.

AlexD/Comin Wikimedia




## BANER OWAIN GLYNDŴR

Yn ystod ei wrthryfel deng mlynedd yn erbyn y Saeson yn y 15fed ganrif roedd gan Owain Glyndŵr ei arfbais ei hun, sef cynllun pedwar llew ar gefndir coch ac aur.

Byddai'r arfbais wedi ymddangos ar faneri ac hefyd ar dariannau.

Mae rhai yn cymysgu baner Glyndŵr gydag arfbais hŷn Teyrnas Gwynedd, oedd hefyd yn cynnwys pedwar llew ar gefndir coch ac aur. Hon oedd arfbais bersonol Llywelyn Fawr.

Sodacan/Comin Wikimedia



*Arfbais Tywysogaeth Gwynedd*

Ond mae gwahaniaeth rhwng y ddwy arfbais. Mae llewod tywysogion Gwynedd yn cerdded gydag un bawen oddi ar y llawr a'r wyneb wedi ei droi tuag atom, ond mae gan lewod Glyndŵr un neu ddwy goes ar y llawr ac un bawen yn barod i daro.

Mae'n bosib fod Glyndŵr wedi dewis cynllun oedd yn ymdebygu i nod tywysogion Gwynedd, sef arweinwyr cynhenid olaf Cymru, a thrwy wneud ei lewod yn rhai ymosodol, ei fod yn gwneud datganiad clir i frenin Lloegr.

Yn y blynyddoedd diweddar mae'r faner wedi ei hadfywio fel symbol o hunaniaeth Gymreig gyda rhai sefydliadau yn chwifio'r faner ar Ddydd Owain Glyndŵr, sef Medi 16 - y diwrnod yn 1400 pan gafodd ei gyhoeddi yn 'Dywysog Cymru'. Mae'n cael ei chwifio mewn digwyddiadau cenedlaethol diwylliannol ac ym maes chwaraeon.